



Teitl: Gweithdrefn Apêl gan Ddysgwr yn erbyn Penderfyniadau Asesu

Dyddiad Cyhoeddi: Mawrth 2019

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Dolen at Gam 1 Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb:	Cam 1 EIA Gweithdrefn Apêl gan Ddysgwr yn erbyn Penderfyniadau Asesu
Dolen at Gam 2 Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb:	-

Adolygu a Chymeradwyo

Cyfrifoldeb:	Cyfarwyddwr Ansawdd ac AU
Corff Cymeradwyo:	SMT
Dyddiad Cymeradwyo:	Mawrth 2019
Amllder Adolygu:	3 blynedd
Dyddiad Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb:	Mawrth 2019
Dyddiad y Daw i Ben:	Mawrth 2022

Cwmpas

Sicrhewch fod y polisi/strategaeth yn cynnwys datganiad cwmpas sydd yn nodi i bwy neu beth mae'r polisi yn berthnasol. Er enghraifft: pob gweithiwr, myfyriwr, system gyfrifiadurol, taliad cerdyn credyd.

I'w bennu gan y Rheolwr Gweinyddol a Gwasanaethau i Gwsmeriaid

Gweithdrefn Apêl gan Ddysgwr yn erbyn Penderfyniadau Asesu

1. Pwrpas

Pwrpas y weithdrefn hon yw sicrhau fod unrhyw apêl a wneir gan ddysgwr mewn perthynas â phenderfyniadau arholi neu asesu yn cael ei thrin yn deg, yn wrthrychol a heb wahaniaethu. I'r perwyl hwn, gall dysgwr gael cymorth priodol i'w alluogi i barhau gyda'i apêl.

2. Cwmpas

Mae'r weithdrefn hon yn ymdrin â'r holl apeliadau a wneir gan ddysgwyr mewn perthynas â phrosesau asesu. Mae'r weithdrefn apêl yn rhoi ystyriaeth briodol i unrhyw safonau cenedlaethol perthnasol a/neu ofynion sefydliad dyfarnu.

3. Cyfeiriadau

Coleg Cambria – Polisi Cydraddoldeb
Cod Ymarfer y Sefydliad Dyfarnu ar gyfer Apeliadau Myfyrwyr

4. Gweithdrefn

- 4.1 Os yw dysgwr yn bryderus am unrhyw ran o'r broses asesu ar gyfer unrhyw gymhwyster, yna dylai drafod problemau gyda'r asesydd neu'r tiwtor priodol yn gyntaf.
- 4.2 Os nad yw'n bosib i'r dysgwr fynd at yr asesydd neu'r tiwtor yna dylai siarad â'i diwtor personol.
- 4.3 Yn achos cymwysterau QCF - Dyfarniadau, Tystysgrifau a Diplomâu - os oes anghytundeb ynglyn â'r penderfyniad asesu, caiff y mater ei gyfeirio at yr Aswirydd Sicrhau Ansawdd Mewnol (IQA).
- 4.4 Mewn amgylchiadau lle mae dysgwyr yn teimlo fod ganddynt resymau digonol a phriodol i herio penderfyniadau sy'n ymwneud â chynnal neu ganlyniad asesiad ac ni fu'n bosibl datrys y broblem drwy'r broses ymgynghori fel y nodwyd yn 4.1, 4.2 a 4.3 uchod, mae ganddynt hawl i apelio.
- 4.5 Dylid gwneud apeliadau o fewn 10 niwrnod gwaith ar ôl i ddysgwr gael canlyniad yr asesiad. Fodd bynnag, derbynnir o dan amgylchiadau eithriadol fod rhesymau dros apelio yn dod i'r amlwg yn hwyrach weithiau. Os felly, dylai'r dysgwr amlinellu ei resymau dros apelio a'r rhesymau dros gyflwyno'r apêl yn hwyr, a bydd y rhain yn cael eu hystyried fesul achos yn ôl disgrisiwn y coleg. Bydd y dysgwr yn cael ymateb ysgrifenedig ym mhob achos o'r fath.
- 4.6 Gellir apelio yn erbyn:
 - Sut gafodd yr asesiad ei gynnal
 - Y cyfleoedd a oedd ar gael ar gyfer asesu
 - Y cyfleoedd a oedd ar gael ar gyfer ail-asesu
 - Sylw priodol i'r dystiolaeth a aseswyd o ran safonau cenedlaethol a gofynion y sefydliad dyfarnu
 - Methiant yr asesydd i ddarparu asesiad y cytunwyd arno yng nghynllun asesu'r dysgwr
 - Penderfyniadau / graddau asesu

- 4.7 Dylai'r dysgwr gyflwyno apêl ffurfiol yn ysgrifenedig (ffurflen ynghlwm) a'i hanfon at Bennaeth Cynorthwyol y maes dan sylw, sy'n ei chofnodi ar y ddogfen Apêl Ffurfiol ac yn adolygu'r apêl. Yn achos dysgwr sy'n dymuno apelio yn erbyn canlyniad arholiad TGAU neu Safon Uwch, dylid ei chyfeirio at y swyddfa arholiadau a fydd yn cwblhau'r ffurflenni apelio angenrheidiol gan y sefydliad dyfarnu ac yn hysbysu'r myfyriwr o'r tâl apeliadau perthnasol cyn anfon y ffurflenni at y sefydliad dyfarnu. Cedwir copïau o'r apeliadau yn y swyddfa arholiadau.
- 4.8 Os na all y Pennaeth Cynorthwyol ddatrys y mater, bydd yn trosglwyddo dogfennau'r apêl i'r Cyfarwyddwr Ansawdd ac AU, a fydd yn cydnabod ei chael trwy lythyr.
- 4.9 Ar ôl cael apêl ffurfiol, mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwr Ansawdd ac AU ymchwilio i'r sefyllfa, a chyflwyno'r penderfyniad a ddylai'r apêl fynd ymhellach, i'r myfyriwr **o fewn deng niwrnod gwaith ar ôl cael yr apêl gan y** Pennaeth Cynorthwyol. (Noder: gall ymholiadau gyda sefydliadau dyfarnu gymryd rhagor o amser a gall fod hyd at 30 diwrnod. Byddwch yn cael gwybod os felly)
- 4.10 Os yw'r Cyfarwyddwr Ansawdd ac AU yn credu fod rheswm dilys dros yr apêl, yna sefydlir panel apeliadau sy'n cynnwys:

Cyfarwyddwr Ansawdd ac AU,
Asesydd neu Diwtor annibynnol cymwys yn yr alwedigaeth
Aswirydd Sicrhau Ansawdd Mewnol annibynnol cymwys yn yr alwedigaeth
Pennaeth Cynorthwyol annibynnol

- 4.11 **O fewn deng niwrnod gwaith o glywed apeliadau**, maent yn cael eu hystyried a'u cofnodi, ac anfonir y penderfyniad yn ysgrifenedig at y dysgwyr, a'r staff priodol.
- 4.12 Os, am reswm da, nad yw'n bosibl parhau gyda'r apêl o fewn yr amser hwnnw, rhoddir gwybod i'r dysgwr am y rheswm a bydd yn cael gwybod y dyddiad arfaethedig ar gyfer ystyried yr apêl.
- 4.13 Gall canlyniadau'r broses apelio arwain at :
- Ail-asesu tystiolaeth y dysgwr gan yr asesydd/IQA/darlithydd gwreiddiol
 - Ail-asesu tystiolaeth y dysgwr gan asesydd/IQA/darlithydd gwahanol
 - Y penderfyniad gwreiddiol yn cael ei gadarnhau
 - Ceisio cyngor gan yr aswirydd ansawdd allanol/safonwr/sefydliad dyfarnu.
- 4.14 Os yw dysgwr yn ystyried nad yw'r ganolfan wedi cynnal apêl yn deg, neu fod rhywun wedi gwahaniaethau yn eu herbyn, gall apelio yn y lle cyntaf i'r sefydliad dyfarnu, ac os yw'n dal yn anfodlon, i'r DfES.

5. Cofnodion Ansawdd

Dogfen

Cadw

Cofnodion apeliadau ffurfiol

Cyfarwyddwr Ansawdd ac AU, y swyddfa a'r gofrestr apeliadau

Copiâu o'r apeliadau

Ffeil apeliadau'r Gyfarwyddiaeth berthnasol

Cedwir cofnodion am 5 mlynedd o leiaf ac yna cânt eu harchifo ar gyfarwyddyd y Cyfarwyddwr Ansawdd ac AU

Diwedd.

APÊL FFURFIOL

Enw'r dysgwr

Rhaglen / Cwrs

Dyddiad

Disgrifiad o'r apêl

Llofnod y dysgwr

Dyddiad

Llofnod y Cyfarwyddwr

Dyddiad